Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**12 Ionawr 2022**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i**

**Archwiliad thematig ar y cyd o'r daith cyfiawnder troseddol ar gyfer unigolion ag anghenion ac anhwylderau iechyd meddwl – Tachwedd 2021**

Mae'n galonogol darllen y gydnabyddiaeth o rywfaint o gynnydd yr heddlu ers adolygiad yr Arglwydd Bradley yn 2009. Rwy'n hyderus bod Heddlu Dyfed-Powys yn gwneud pob ymdrech i barhau â'r cynnydd hwn a chefnogi'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl, pa un ai a ydynt yn ddrwgdybiedigion, yn ddioddefwyr, neu mewn angen dybryd.

Mae rhai o'r datblygiadau diweddar mwyaf nodedig sy'n ymwneud â Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys:

- Secondiad gwneuthurwr penderfyniadau iechyd meddwl uwch i Ganolfan Fregusrwydd Heddlu Dyfed-Powys.
- Cynllun peilot gwasanaeth trafnidiaeth iechyd meddwl Ambiwlans Sant Ioan o fis Ebrill 2021 (wedi'i leoli yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru).
- Twilight Sanctuary Sir Benfro'n cael ei gyflwyno gan MIND Cymru yn Hwlffordd, â darpariaeth debyg ar agor yn ystod y dydd yn Noc Penfro.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid ar argymhellion adroddiad Tu Hwnt i'r Alwad Llywodraeth Cymru.
- Cydlynodd Llywodraeth Cymru ymateb Grŵp Prif Swyddogion Cymru i'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Cyflwyno ffurflen ar-lein a gwelliannau ar lefel heddlu i broses Adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Cynllun peilot gwasanaeth iechyd meddwl 111 y GIG ar gyfer swyddogion / staff sy'n mynd i gyfeiriadau pobl sydd o bryder ond sydd ddim yn addas neu'n gymwys ar gyfer cael eu cadw o dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl, neu'n dod ar eu traws.
- Datblygu dangosfwrdd galw iechyd meddwl sy'n caniatáu i'r Heddlu a'm swyddfa olrhain tueddiadau o ran galw a defnydd o rym mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.
- Sefydlwyd cyfarfodydd partneriaethau iechyd meddwl lleol ar lefel sir a thref i gytuno ar y ffyrdd mwyaf priodol o gefnogi defnyddwyr gwasanaeth mynych.

Fis diwethaf, cyhoeddais fy Nghynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer ardal Dyfed-Powys, o fewn pa un yr wyf wedi nodi pwysigrwydd dilyn ymagwedd iechyd cyhoeddus tuag at broblemau niwed uwch, gan gynnwys iechyd meddwl. Yr wyf wedi ymrwymo'n bersonol i barhau i lobïo Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol ar gyfer ymagwedd fwy integredig

tuag at wella arweinyddiaeth a darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, i'w galluogi i ymateb yn fwy effeithlon i unigolion ag anghenion iechyd meddwl.

Mae Strategaeth Iechyd Meddwl Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer 2022-25 yn canolbwyntio ar 4 ffrwd gwaith thematig:

- Gofal adeg argyfwng a gweithdrefnau trosglwyddo
- Atal hunanladdiad a hunan-niweidio
- Cyfiawnder troseddol a dalfeydd
- Defnyddwyr gwasanaeth mynych a thueddiadau

Mae perthnasau gyda phartneriaid statudol i gyd yn gadarnhaol iawn, gyda byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a CAHMS yn cefnogi cyfarfodydd datrys problemau iechyd meddwl misol ym mhob un o'r 4 sir y mae Heddlu Dyfed-Powys yn gofalu amdanynt. Yr wyf hefyd yn cael fy nghynrychioli ar y 4 Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.

Ymagwedd yr Heddlu sy'n tanategu'n holl weithgarwch presennol yw 'Adeiladu Cadernid'. Golyga hyn eu bod nhw'n ceisio diffinio a gwella'r holl brosesau mewnol ac allanol ar gyfer iechyd meddwl. Yn bennaf, mae hyn yn cynnwys partneriaeth iach iawn â chydweithwyr yn y maes iechyd, gan weithio tuag at nodau a rennir. Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, golyga hyn eu bod nhw'n mabwysiadu ymagwedd datrys problemau ar gyfer cynorthwyo â chyfeirio i leihau'r tebygolrwydd o gyswllt pellach gyda'r heddlu. Ar gyfer staff Heddlu Dyfed-Powys, mae hyn yn golygu pecyn hyfforddi newydd a chanllawiau newydd wedi'u symleiddio. Ar gyfer ein cymunedau, mae hyn yn golygu eu bod nhw'n cefnogi prosiectau amrywiol yn weithredol, megis llochesi Twilight Sanctuary, mannau diogel ychwanegol ac unrhyw waith arall cadarnhaol a arweinir gan elusennau.

Mae fy nhrefniadau ar gyfer goruchwylio dalfeydd yn canolbwyntio ar garcharorion agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n profi salwch meddwl. Yn ogystal, mae un o'm Hymgynghorwyr Polisi'n cynnal cysylltiadau da gydag arweinydd Iechyd Meddwl Strategol yr Heddlu er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am heriau a datblygiadau allweddol. Yr wyf hefyd yn derbyn diweddariadau bob hyn a hyn ac yn parhau i weithio gyda chymheiriaid yng Nghymru er mwyn lobïo Llywodraeth Cymru ac asiantaethau partner ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl gwell.

Fel cadeirydd presennol Plismona yng Nghymru, byddaf yn sicrhau ein ffocws ar y cyd ar y mater pwysig hwn i yrru gwelliannau ar gyfer pawb sy'n profi'n system gyfiawnder.